# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR PENSIYNAU**

Dyddiad ac Amser

**2.00 y.h., DYDD IAU, 21AIN IONAWR, 2021**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Mercher, 13 Ionawr 2021)

## PWYLLGOR PENSIYNAU

### AELODAETH (7)

## Plaid Cymru (4)

Y Cynghorwyr

| | | |
|---|---|---|
| Aled Wyn Jones | Peredur Jenkins | Ioan Thomas |
| Simon Glyn | | |

## Annibynnol (2)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| John Brynmor Hughes | John Pughe Roberts |

## Aelod Unigol (1)

Y Cynghorydd
Stephen W. Churchman

## Aelodau Cyfetholedig

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Robin Wyn Williams | Cyngor Sir Ynys Mon |
| Councillor Goronwy Owen Edwards | Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy |

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N


**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 5 - 9

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 14 Hydref 2020 fel rhai cywir

**5. CYMERADWYO CYLLIDEB 2021/22** 10 - 11

I gymeradwyo cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/22 ar gyfer yr Uned Gweinyddu Pensiynau a'r Uned Buddsoddi.

**6. RHEOLAETH TRYSORLYS 2020/21 - ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN** 12 - 19

I ystyried adroddiad y Rheolwr Buddsoddi

**7. CRONFA GIFFORD GLOBAL ALPHA PARIS ALIGNED FUND** 20 - 21

Gofyn i'r Pwyllgor Pensiynau gytuno i symud cronfa graidd Baillie Gifford i gronfa Baillie Gifford Global Alpha Paris Aligned.

**8. GOSOD AMCANION I YMGYNGHORWYR BUDDSODDI** 22 - 24

Adrodd ar gynnydd yn erbyn amcanion cyfredol ac adolygu amcanion y dyfodol

**9. RHEOLIADAU TALIADAU YMADAEL Y SECTOR CYHOEDDUS 2020** 25 - 27

I ystyried adroddiad y Rheolwr Pensiynau

**10. DATGANIAD POLISI CYFATHREBU NEWYDD** 28 - 41

I dderbyn cymeradwyaeth y Pwyllgor i fabwysiadu y Datganiad Polisi Cyfathrebu newydd

# PWYLLGOR PENSIYNAU 14.10.2020

**YN BRESENNOL**:

**Cynghorwyr:** Stephen Churchman, Goronwy Edwards (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy), Simon Glyn, John Brynmor Hughes, Peredur Jenkins, Aled Wyn Jones, John Pughe Roberts, Ioan Thomas, a Robin Williams (Cyngor Sir Ynys Môn)

**Swyddogion:** Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Delyth Jones-Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Meirion Jones (Rheolwr Pensiynau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**Eraill a wahoddwyd:** H Eifion Jones (Aelod Bwrdd Pensiwn – arsylwi)

Croesawyd y Cynghorydd Goronwy Edwards (cynrychiolydd Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy) i'w gyfarfod cyntaf a chroesawyd y Cynghorydd Simon Glyn yn ôl fel Aelod Plaid Cymru (Cyngor Gwynedd). Diolchwyd i gyn cynrychiolydd Plaid Cymru y Cynghorydd Peter Read am ei wasanaeth.

## 1. ETHOL CADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Peredur Jenkins yn Gadeirydd i'r Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2020 /2021**

Diolchwyd i'r Cynghorydd John Pughe Roberts am ei waith fel Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau 2018 / 20. Gydag ychwanegiadau i gyfrifoldebau'r swydd yn rhanbarthol a chenedlaethol, diolchwyd iddo am ei ymroddiad i'r swydd a hynny mewn cyfnod heriol ac anodd iddo.

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Stephen Churchman yn Is-gadeirydd i'r Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2020 / 21**

## 3. YMDDIHEURIADAU

Dim i'w nodi

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Amlygodd yr Aelodau fuddiant nad oedd yn rhagfarnu oherwydd eu bod yn Aelodau o'r Gronfa Bensiwn

## 5. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

**6. COFNODION**

Bu i'r Cadeirydd dderbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Gorffennaf 2020 fel rhai cywir.

**7. CYFRIFON CRONFA BENSIWN GWYNEDD AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 Mawrth 2020**

Cyflwynwyd adroddiad ynghyd a Datganiad o Gyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd 2019/20 (ôl archwiliad), gan y Pennaeth Cyllid yn darparu manylion gweithgareddau ariannol y Gronfa Bensiwn yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 31ain 2020. Atgoffwyd yr Aelodau bod drafft o'r cyfrifon wedi eu cyflwyno i gyfarfod 23ain Gorffennaf 2020 ac er nad oedd y ffigyrau wedi newid, tynnwyd sylw at rai addasiadau i'r naratif yn dilyn archwiliad gan gwmni Deloitte. Cyfeiriwyd at adroddiad ISA260 ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru yn manylu ar eu darganfyddiadau. Ategwyd mai'r Pwyllgor Archwilio sydd â chyfrifoldeb i dderbyn y cyfrifon yn ffurfiol ac y byddent yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar y 15fed o Hydref ar gyfer cymeradwyaeth.

Cyfeiriwyd at ychwanegiadau gan yr Archwilwyr i Nodyn 4 ac 5 lle nodi'r gwybodaeth ar brisiadau'r gronfa eiddo. Yn dilyn atal masnachu ar gronfeydd eiddo fis Mawrth, adroddwyd bod y cronfeydd eiddo bellach wedi ail ddechrau masnachu a'r ataliad wedi ei godi ers dechrau mis Medi. Er bod y swm presennol ychydig yn is na'r hyn a amlygwyd ddiwedd Mawrth 2020, yn ôl Hymans, nid oedd yn sylweddol is na'r hyn oedd yn rhesymol. O ystyried bod y portffolio yn un eang, adroddwyd bod y portffolio wedi dal ei dir yn eithaf ac y byddai modd cynnal trafodaeth ac amlygu unrhyw bryderon gyda'r Rheolwyr sydd yn buddsoddi ar ran y Gronfa yng nghyfarfod y Panel mis Tachwedd.

Adroddwyd er nad oedd yr Archwilwyr wedi amlygu un mater penodol i Gronfa Bensiwn Gwynedd, eu bod wedi nodi tri achos fyddai'n debygol o gael effaith ar y Gronfa.

- Cydraddoli GMP
- Achos McCloud
- Achos Goodwin

Ategwyd bod yr achosion hyn yn gyffredin ar draws yr holl gronfeydd pensiwn a bod Gwynedd eisoes wedi dechrau cydweithio gyda'r actiwari yn achos Mc Cloud a Goodwin.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylw canlynol:

- Gyda symudiad mewn buddsoddiadau eiddo a gwerthoedd i ffwrdd o'r stryd fawr i mewn i ystordai, dylid ystyried newidiadau i arferion gwaith yn y tymor hir. Rhaid bod yn agored i gyfleoedd ac ymateb i'r newidiadau hyn.

Gwerthfawrogwyd ymroddiad a chywirdeb y gwaith a diolchwyd i'r Rheolwr Buddsoddi a'r tîm am baratoi'r gwaith.

Adroddwyd bod Marina Parry Owen (Swyddog Pensiynau a Buddsoddiadau) yn dioddef o Glefyd Addisons. Dymuniad y Pwyllgor oedd anfon eu dymuniadau gorau at Marina gan ddiolch iddi am ei gwaith yn yr Uned Pensiynau a Buddsoddi.

**PENDERFYNWYD:**

Derbyn, er gwybodaeth

- Y Datganiad o'r Cyfrifon 2019/20 (ôl archwiliad)
- Yr adroddiad 'ISA260' gan Deloitte ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd
- Y Llythyr Cynrychiolaeth

**8. DIWEDDARIAD INCWM SEFYDLOG PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU**

Cyflwynwyd adroddiad, er gwybodaeth, gan y Rheolwr Buddsoddi yn rhoi diweddariad ar y gronfa Incwm Sefydlog. Adroddwyd bod buddsoddiad o £166,119,549.08 gyda Fidelity Global Equity wedi ei drosglwyddo yn llwyddiannus ar y 27ain o Orffennaf 2020 i'r Multi Asset Credit Fund.

Yn ychwanegol, nodwyd bod bwriad lansio Cronfa Abolute Return Bond yng Ngorffennaf 2020 ond darganfuwyd nad oedd buddsoddiadau presennol yn gymwys i'r strwythur ACS. Yn dilyn gwaith ymchwil pellach gan Paul Potter - Hymans Robertson, a thrafodaeth yn y Panel Buddsoddi ym mis Medi, lansiwyd yr Absolute Return Bond Fund ar y 1af o Hydref gyda'r buddsoddiad gyda Insight o £291,238,172.22 erbyn hyn wedi trosglwyddo yn llwyddiannus i'r gronfa.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth**

**9. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol( yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny). Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol awdurdod cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth fasnachol heb ei gyhoeddi. Mae'r adroddiad yn benodol ynglŷn â dyfarnu contractau ac yn cynnwys manylion am y cynigion ynghyd a statws a busnes y darpar gyflenwyr. Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn gallu tanseilio hyder darparwyr i ddod a phrisiau ymlaen gerbron y Cyngor ac felly gallu'r Cyngor i gaffael yn llwyddiannus. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau gwerth am arian a'r allbwn cyfansawdd gorau . Am y rhesymau yma rwy'n fodlon fod y mater yn gaeedig er y budd cyhoeddus.**

**10. IS-GRONFA ECWITI MARCHNADOEDD DATBLYGOL PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn gwneud cais i'r Pwyllgor gytuno i strwythur yr Is-gronfa Marchnadoedd Datblygol Partneriaeth Pensiwn Cymru. Adroddwyd bod yr opsiynau wedi ei cyflwyno i'r Bartneriaeth ac eisoes wedi eu

cymeradwyo gan y Cydbwyllgor Llywodraethu ar y 12fed o Fawrth 2020. Bydd disgwyl i'r Is-gronfa gael ei lansio yng Ngwanwyn 2021.

.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo strwythur yr Is-gronfa**

**11. AIL AGOR Y CYFARFOD I'R WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD ail agor y cyfarfod i'r wasg a'r cyhoedd**

**12. CRONFA CARBON ISEL BLACK ROCK**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn gofyn i'r Pwyllgor gytuno i drosglwyddo cronfa bresennol carbon isel Black Rock i'r ACS World Low Carbon Equity Tracker Fund.

Atgoffwyd yr Aelodau bod penderfyniad wedi ei wneud yng nghyfarfod mis Gorffennaf i drosglwyddo swm o gronfa bresennol Black Rock, ond ers hynny bod Black Rock wedi datblygu cronfa newydd gyda ffocws bellach ar leihau carbon o gymharu â'r gronfa bresennol.

Amlygwyd bod y gronfa newydd yn cynnwys y newidiadau canlynol;

- sgriniau tanwydd ffosil cyn yr optimeiddio carbon isel
- ar gyfer cynnydd mewn gwall olrhain o 0.30% i 0.50%, bydd carbon yn cael ei leihau 44%

Nodwyd bod trafodaeth ar y gronfa newydd wedi ei gynnal yn y Panel Buddsoddi diweddar a bod yr ymgynghorwyr wedi cytuno y byddai'n fuddiol trosglwyddo i'r gronfa newydd.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol:

- bod y penderfyniad i fuddsoddi mewn cronfeydd sydd yn lleihau carbon yn gydnaws a daliadau'r strategaeth buddsoddi a gymeradwywyd ym misTachwedd 2019
- nad oedd costau mawr i drosglwyddo

**PENDERFYNWYD cymeradwyo symud y gronfa bresennol yn yr ACS World Low Carbon Equity Tracker Fund (MSCI World Low Carbon Target i'r ACS WORLD LOW CARBON EQUITY TRACKER FUND (MSCI WORLD LOW CARBON TARGET EX FOSSIL FUELS INDEX) yn unol a'r drafodaeth yn y Panel Buddsoddi diweddaraf.**

**13. GWEINYDDIAETH PENSIYNAU**

Derbyniwyd adroddiad gan y Rheolwr Pensiynau yn adrodd ar ymateb y Gwasanaeth i weithio drwy pandemig covid 19. Adroddwyd bod y Gwasanaeth wedi bod yn gweithio o adref yn llwyddiannus ers 25/03/2020. Amlygwyd nad oedd y gwasanaeth wedi dioddef oherwydd y newid i batrwm gwaith ac er yr heriau o fod yn hyblyg gyda rhai staff ac eraill yn trosglwyddo i adrannau eraill, ymddengys bod y newid wedi bod yn llesol i'r

adran weinyddol. Blaenoriaethwyd y gwaith a gwnaed defnydd o'r cyfrwng Teams i gyfathrebu a chadw cysylltiad yn lleol ac yn rhanbarthol.

Nodwyd bod cynnydd yn nefnydd system hunanwasanaeth Aelodau a bod yr argyfwng wedi annog y tîm i weithio yn ddi-bapur (hyn yn fwy effeithiol, yn gynt ac yn rhatach). Ategwyd bod amryw o dasgau a phrosiectau angen sylw a rheiny wedi cael ei hamserlennu ar gyfer y misoedd nesaf.

Diolchwyd am yr adroddiad cadarnhaol ac am weithredu'r pensiynau mor effeithiol.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â thaliadau staff ar ffyrlo ac, os yr oeddynt ar eu colled, a oedd yr Undebau wedi tynnu sylw at y mater? nodwyd bod y sefyllfa yn ddibynnol ar y cyflogwr yn talu'r 20% ychwanegol. Awgrymwyd bod y cwmnïau mwyaf yn fwy tebygol o dalu'r ychwanegiad. Eglurwyd, os na fyddai'r ychwanegiad yn cael ei dalu, yna byddai'r cyfranddaliadau yn cael eu tynnu oddi ar yr 80% ac o ganlyniad, bydd y staff ar eu colled. Ategwyd bod y cyfranddaliadau yn unol â'r pensiwn ac y byddai'r Undebau yn debygol o herio'r Cyflogwyr yn hytrach na'r Gronfa. Nodwyd hefyd bod ychydig o anfantais i'r rhai hynny sydd ar ffyrlo ac yn ymddeol eleni gan fod rhaid edrych dros y tair blynedd ddiwethaf i ganfod y tal terfynol i sicrhau tegwch.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â lleihau'r nifer o lythyrau papur sydd yn cael eu postio yn wythnosol, nodwyd nad oedd hyn yn ymarferol bosib bob tro gan fod rhai pobl yn dymuno cael llythyr papur a bod angen ymateb i rai llythyrau gyda llofnod. Er hynny, nodwyd bod defnyddio argraffdy Cyngor Gwynedd neu gwmni preifat i ddosbarthu'r llythyrau yn fwy effeithiol wedi cael ei ystyried ynghyd a sicrhau bod pob ymgais yn cael ei wneud i ddefnyddio e-byst pan yn bosib.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30am a daeth i ben 11:50am

# Eitem 5

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR: | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| DYDDIAD: | **21 IONAWR 2021** |
| TEITL: | **CYMERADWYO CYLLIDEB 2021/22** |
| PWRPAS: | **I gymeradwyo cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/22 ar gyfer yr Uned Gweinyddu Pensiynau a'r Uned Buddsoddi.** |
| ARGYMHELLIAD: | **CYMERADWYO'R GYLLIDEB** |
| AWDUR: | **DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cymeradwyo Cyllideb 2021/22 ar gyfer yr Uned Gweinyddu Pensiynau a'r Uned Buddsoddi.

1.2 Yn hanesyddol, adroddwyd i'r Pwyllgor Pensiynau am gymeradwyaeth i ychwanegiadau at y gyllideb ar gyfer gweinyddu pensiynau a buddsoddi'r Gronfa. Eleni, yn unol ag arfer da, adroddir ar gyfanswm y gyllideb flynyddol.

## 2. UNED GWEINYDDU PENSIYNAU

| | **Terfynol 2020/21** | **Addasiad*** | **Chwyddiant** | **Cyllideb 2021/22** |
|---|---|---|---|---|
| Gweithwyr | £657,900 | £6,700 | £6,940 | £671,540 |
| Costau teithio a chynhaliaeth | £1,440 | £0 | £0 | £1,440 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | £248,270 | £0 | £3,210 | £251,480 |
| Gwasanaethau Canolog | £112,800 | £0 | £1,690 | £114,490 |
| **Cyfanswm** | **£1,020,410** | **£6,700** | **£11,840** | **£1,038,950** |

*diwrnod gwyliau di dal mae'r Cyngor wedi gwrthdroi

2.1 Gweithwyr, costau teithio a chynhaliaeth

Mae'r gyllideb ar gyfer yr uned yma yn cynnwys 18 swydd llawn amser ac 1 swydd rhan amser.

2.2 Cyflenwadau a Gwasanaethau

Mae'r gyllideb yma yn cynnwys costau argraffu, defnyddiau swyddfa a meddalwedd.

2.3 Gwasanaethau Canolog

Mae'r gwasanaethau canolog yn cynnwys 20% o gostau'r Pennaeth Cyllid a'i staff ategol, a chefnogaeth gan wasanaethau'r Cyngor megis technoleg gwybodaeth, corfforaethol a chyfreithiol.

## 3. UNED BUDDSODDI

| | Terfynol 2020/21 | Addasiad* | Chwyddiant | Cyllideb 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| Gweithwyr | £111,375 | £432 | £1,145 | £112,952 |

*diwrnod gwyliau di dal mae'r Cyngor wedi gwrthdroi

3.1 Gweithwyr

Mae'r uned yma wedi ei leoli o fewn prif uned Cyllid Canolog felly dim ond elfen o'r swyddi a ariennir gan y Gronfa Bensiwn.

Ceir 3 swydd llawn amser yn yr uned gydag amser y swyddogion wedi ei rhannu rhwng Cronfa Bensiwn Gwynedd a Chyngor Gwynedd. Ariennir y canrannau canlynol o'r swyddi gan y Gronfa Bensiwn:

- Rheolwr Buddsoddi (85%)
- Swyddog Pensiynau a Buddsoddiadau (80%)
- Cyfrifydd Cynorthwyol Pensiynau a Rheolaeth Trysorlys (60%)

## 4. COSTAU RHEOLWYR BUDDSODDI A YMGYNHORWYR

Nid oes cyllideb yn cael ei osod gan fod y gwariant yn newidiol, ond mae'r gwariant yn cael ei adrodd yn llawn o fewn y cyfrifon terfynol ac Adroddiad Blynyddol y Gronfa.

## 5. ARGYMHELLIAD

5.1 Gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/22 ar gyfer yr Uned Gweinyddu Pensiynau a'r Uned Buddsoddi.

Eitem 6

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| DYDDIAD: | **21 IONAWR 2021** |
| TEITL: | **RHEOLAETH TRYSORLYS 2020/21– ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN** |
| PWRPAS: | **Mae Cod Ymarfer CIPFA yn argymell y dylid cynhyrchu adroddiad ar wir weithgarwch Rheolaeth Trysorlys y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol.** |
| ARGYMHELLIAD: | **DERBYN YR ADRODDIAD ER GWYBODAETH** |
| AWDUR: | **DELYTH JONES- THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI** |


**CRYNODEB GWEITHREDOL**

**Yn ystod y cyfnod chwe mis rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2020, arhosodd gweithgarwch benthyca a buddsoddi'r Cyngor o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol. Nid oedd unrhyw fanciau lle'r oedd y Cyngor wedi adnau arian wedi methu ad-dalu. Ymhellach, amcangyfrifir bydd gwir incwm buddsoddi'r Cyngor yn is na'r incwm disgwyliedig yng nghyllideb 2020/21.**


## 1. CYFLWYNIAD

Mae Cod Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar gyfer Rheoli Trysorlys (Cod TM CIPFA) yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau adrodd ar berfformiad y swyddogaeth rheoli trysorlys o leiaf ddwywaith y flwyddyn (canol y flwyddyn a diwedd y flwyddyn). Mae'r adroddiad yma yn darparu diweddariad canol blwyddyn.

Cymeradwywyd strategaeth rheoli trysorlys y Cyngor gan y Cyngor llawn ar 5 Mawrth 2020. Mae'r Cyngor wedi benthyca a buddsoddi symiau sylweddol o arian ac mae felly'n agored i risgiau ariannol, gan gynnwys colli cronfeydd a fuddsoddwyd ac effaith refeniw cyfraddau llog sy'n newid. Mae adnabyddiaeth lwyddiannus, monitro a rheolaeth risg yn ganolog i strategaeth rheolaeth trysorlys y Cyngor.

Penderfynwyd yn y Pwyllgor Pensiynau, 18 Mawrth 2020 i ganiatáu i gronfeydd dros ben y Gronfa Bensiwn gael eu cyfuno a'u cyd-fuddsoddi â llif arian cyffredinol y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/21.

## 2. CYD DESTUN

Ar 30ain Medi 2020, roedd gan y Cyngor £63.1m o fuddsoddiadau, i gymharu a £27.8m ar 31 Mawrth 2020, gyda cyfradd cyfartalog o 0.61%.

## 3. GWEITHGAREDD BUDDSODDI

Mae gan y Cyngor gronfeydd wedi'u buddsoddi, sy'n cynrychioli incwm a dderbynnir cyn gwariant ynghyd â balansau a chronfeydd wrth gefyn. Yn ystod y 6 mis, roedd balans buddsoddiadau y Cyngor yn amrywio rhwng £49.6 a £110.4 miliwn oherwydd gwahaniaethau amseru rhwng incwm a gwariant. Dangosir sefyllfa'r buddsoddiadau yn ystod y cyfnod yn y tabl isod.

**Sefyllfa Buddsoddi Trysorlys**

| | **31.3.20 Balans £m** | **Symudiad 6 mis £m** | **30.9.20 Balans £m** | **30.9.20 Incwm %** |
|---|---|---|---|---|
| Banciau a chymdeithasau adeiladu (ansicredig) | 8.7 | 5.0 | 13.7 | 0.22 |
| Awdurdodau Lleol | 0.0 | 6.0 | 6.0 | 0.08 |
| Swyddfa Rheoli Dyledion | 0.0 | 4.0 | 4.0 | 0.01 |
| Cronfeydd Marchnad Arian | 9.1 | 20.3 | 29.4 | 0.07 |
| Cronfeydd Cyfun (buddsoddiad gwreiddiol) | 10.0 | 0.0 | 10.0 | 3.30 |
| **Cyfanswm Buddsoddiadau** | **27.8** | **35.3** | **63.1** | |

Mae Cod CIPFA a chanllaw y llywodraeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor fuddsoddi ei arian yn ddarbodus, gan roi ystyriaeth i ddiogelwch a hylifedd ei fuddsoddiadau cyn ceisio am y cyfradd enillion uchaf, neu'r cynnyrch uchaf. Amcan y Cyngor wrth fuddsoddi arian yw taro'r cydbwysedd cywir rhwng risg ac enillion, gan leihau'r risg o beri colledion o fuddsoddiadau'n diffygdalu a'r risg o dderbyn incwm sy'n anaddas o isel ar fuddsoddiadau.

Yng ngoleuni'r argyfwng pandemig a'r tebygolrwydd o alwadau annisgwyl ar y llif arian, mae'r Cyngor wedi cadw mwy o arian parod ar fyr rybudd nag sy'n arferol. Cafodd arian parod hylif ei arallgyfeirio dros sawl gwrthbartïon a Chronfeydd Marchnad Arian i reoli risgiau credyd a hylifedd.

Dalier £10m o fuddsoddiadau'r Cyngor mewn cronfeydd eiddo ac ecwiti cyfun strategol a reolir yn allanol lle mae diogelwch a hylifedd tymor byr yn llai o ystyriaeth, ac yn hytrach yr amcanion yw incwm refeniw rheolaidd a sefydlogrwydd prisiau hirdymor. Gan nad oes dyddiad aeddfedrwydd diffiniedig gan yr arian hwn, ond maent ar gael i dynnu'n ôl ar ôl cyfnod rhybudd, mae eu perfformiad a'u sefydlogrwydd parhaus wrth gyflawni amcan buddsoddi'r Cyngor yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Gweler perfformiad ein cronfeydd eiddo a ecwiti cyfun hyd at 30 Hydref 2020 isod:

| STRATEGIC POOLED FUND PORTFOLIO | | | GWYNEDD | | | | From: | 21/02/2019 | To: | 31/10/2020 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| FUND NAME | ASSET CLASS | No of Units Held in Period | Current Value £ | Capital Growth £ | Dividends Earned £ | Holding Period (yrs) | Capital Return | Income Return | Total Return | Volatility |
| AEGON (KAMES) DIVERSIFIED MONTHLY INCOME FUND | MULTI ASSET | 1,158,480 | 1,145,158 | -104,842 | 99,997 | 1.7 | -8.39% | 8.00% | -0.39% | 12.2% |
| CCLA - LAMIT PROPERTY FUND | PROPERTY | 1,524,344 | 4,250,328 | -749,672 | 305,882 | 1.7 | -14.99% | 6.12% | -8.88% | 6.2% |
| NINETY ONE (INVESTEC) DIVERSIFIED INCOME FUND | MULTI ASSET | 1,209,599 | 1,202,221 | -47,779 | 85,516 | 1.7 | -3.82% | 6.84% | 3.02% | 6.3% |
| SCHRODER INCOME MAXIMISER FUND | EQUITY - UK | 4,783,773 | 1,518,370 | -981,630 | 256,234 | 1.7 | -39.27% | 10.25% | -29.02% | 17.7% |
| GRAND TOTAL | | | 8,116,076 | -1,883,924 | 747,629 | 1.7 | -18.84% | 7.48% | -11.36% | 6.8% |
| | | Unrealised capital loss: | | -1,883,924 | Annualised income return: | | | 4.38% | | |

Mae'n amlwg bod y gwerth cyfalaf cyfun o £8.116m yn llai na'r buddsoddiad cychwynnol o £10m. Gwneir buddsoddiadau cronfa strategol gan wybod y bydd gwerthoedd cyfalaf yn symud i fyny ac i lawr ar fisoedd, chwarteri a hyd yn oed blynyddoedd; ond gyda'r hyder y bydd cyfanswm yr enillion dros gyfnod o dair i bum mlynedd yn uwch na chyfraddau llog arian parod. Byddwn yn cynnal ein buddsoddiad yn y tymor canolig.

Adlewyrchwyd y cwympiadau yng ngwerthoedd cyfalaf yr asedau sylfaenol, yn enwedig bondiau ac ecwiti ym mhrisiadau cronfa 31 Mawrth 2020 gyda'r mwyafrif o gronfeydd yn cofrestru enillion cyfalaf negyddol dros gyfnod o 12 mis. Ers mis Mawrth bu gwelliant yn sentiment y farchnad a adlewyrchir mewn cynnydd mewn gwerthoedd cyfalaf ac eithrio'r cronfeydd eiddo lle cafodd delio ei atal ym mis Mawrth 2020. Roedd anamlder cymharol trafodion eiddo ym mis Mawrth wrth i'r pandemig ddwysau yn golygu nad oedd yn bosibl i briswyr fod yn hyderus bod eu prisiadau yn adlewyrchu amodau cyffredinol yn gywir. Er mwyn osgoi risg sylweddol o anfantais i brynwyr, gwerthwyr a deiliaid unedau yn y gronfa eiddo, roedd yn ofynnol i'r cwmni rheoli atal trafodion nes bod y lefel ofynnol o sicrwydd yn cael ei ailsefydlu.

**Meincnodi Buddsoddi**

Mae'r dilyniant o'r metrigau risg ac adenillion fel y dangosir yn y detholiadau o feincnodau buddsoddi chwarterol Arlingclose yn y tabl isod.

| | Sgôr Risg | Statws Credyd | Datguddiad 'Bail-in' | Aeddfedrwydd Cyfartaledd Pwysol (diwrnodau) | Cyfradd Adennill % |
|---|---|---|---|---|---|
| 31.03.2020 | 4.99 | A+ | 100% | 31 | 1.97 |
| 30.06.2020 | 4.39 | AA- | 71% | 13 | 0.85 |
| 30.09.2020 | 3.98 | AA- | 74% | 14 | 0.68 |
| **AL tebyg** | **4.41** | **AA-** | **44%** | **177** | **0.40** |
| **Bob AL** | **4.14** | **AA-** | **64%** | **18** | **0.90** |

**Perfformiad Rheolaeth Trysorlys**

Mae'r Cyngor yn mesur perfformiad ariannol ei weithgareddau rheoli trysorlys o ran ei effaith ar y gyllideb refeniw a'i berthynas â meincnod cyfraddau llog.

Gosodwyd incwm buddsoddi yng nghyllideb 2020/21 y Cyngor yn erbyn cefndir economaidd gwahanol iawn. Mae Cyfradd Banc, a oedd yn 0.75% ym mis Chwefror, bellach yn 0.1%, ond bydd y llog a enillir o farchnadoedd arian dyddiedig byr yn sylweddol is. Mewn perthynas ag incwm o gronfeydd strategol y Cyngor a reolir yn allanol, bydd difidendau a dosbarthiadau incwm yn dibynnu yn y pen draw ar lawer o ffactorau, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i hyd COVID-19 a maint ei effaith economaidd, dyraniadau asedau sectoraidd y gronfa a gwarantau a ddelir.

Cyllideb incwm buddsoddi'r Cyngor am y flwyddyn yw £0.4m, ond amcangyfrifir bod yr incwm buddsoddi disgwyliedig gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn 2020/21 yn £0.08m. Mae hyn yn seiliedig ar y disgwyliad canlynol:

- Cronfeydd bondiau a chronfa eiddo: 20% yn is
- Cronfeydd incwm aml-asedau: 25% yn is
- Cronfeydd incwm ecwiti: 50% yn is
- Cyfradd dos nos: 0.01%-0.06%

## 4. CYDYMFFURFIO

Arhosodd gweithgarwch benthyca a buddsoddi'r Cyngor o fewn y cyfyngiadau a osodwyd. Yr unig ddangosydd na chyflawnwyd yw Datguddiad Cyfraddau Llog.

**Ffin Dyled**

| | Uchafswm yn y cyfnod | 30.9.20 Gwir | 2020/21 Ffin Gweithredol | 2020/21 Ffin Awdurdodedig | Cydymffurfio |
|---|---|---|---|---|---|
| Benthyciadau | £124.9m | £110.0m | £184m | £194m | ✓ |
| PFI a Prydlesau Cyllid | £1.7m | £1.7m | £6m | £6m | ✓ |
| **Cyfanswm Dyled** | **£126.6m** | **£111.7m** | **£180m** | **£200m** | ✓ |

**Cyfyngiadau Buddsoddi**

| | Uchafswm yn y cyfnod | 30.9.20 Gwir | 2020/21 Terfyn | Cydym-ffurfio |
|---|---|---|---|---|
| Unrhyw sefydliad unigol, ar wahân i Lywodraeth y DU | £7m | £7m | £8m yr un | ✓ |
| Llywodraeth Ganolog y DU | £45.4m | £4m | anghyfyngedig | ✓ |
| Unrhyw grŵp o sefydliadau dan yr un berchnogaeth | £0 | £0 | £8m fesul grŵp | ✓ |
| Unrhyw grŵp o gronfeydd cyfunedig dan yr un rheolwyr | £5m | £5m | £20m fesul rheolwr | ✓ |
| Offerynnau y mae'n bosib eu cyfnewid a ddelir yng nghyfrif enwebedig brocer | £0 | £0 | £40m fesul brocer | ✓ |
| Gwledydd tramor | £5m | £4m | £8m fesul gwlad | ✓ |
| Darparwyr Cofrestredig | £0 | £0 | Cyfanswm o £20m | ✓ |
| Buddsoddiadau Ansicredig gyda Chymdeithasau Adeiladu | £0 | £0 | Cyfanswm o £8m | ✓ |
| Benthyciadau i Gorfforaethau heb eu raddio | £0 | £0 | Cyfanswm o £8m | ✓ |
| Cronfeydd Marchnad Arian | £40m | £29.4m | Cyfanswm o £40m | ✓ |
| Cronfeydd buddsoddi eiddo tiriog | £0 | £0 | Cyfanswm o £20m | ✓ |

**Dangosyddion Rheolaeth Trysorlys**

Mae'r Cyngor yn mesur a rheoli ei ddatguddiad at risgiau rheolaeth trysorlys wrth ddefnyddio'r dangosyddion canlynol.

**Datguddiad Cyfraddau Llog**: Nod y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Cyngor i risg cyfraddau llog. Bydd y terfynau uchaf ar effeithiau refeniw o gynnydd a cwymp o 1% mewn cyfraddau llog, fel a ganlyn:

| Dangosydd risg cyfradd llog | Cyfyngiad 2020/21 | Targed 2020/21 | Cydymffurfio |
|---|---|---|---|
| Y terfyn uchaf ar effaith refeniw blwyddyn o gynnydd o 1% mewn cyfraddau llog | £374,303 | £324,000 | × |
| Y terfyn uchaf ar effaith refeniw blwyddyn o gwymp o 1% mewn cyfraddau llog | £5,096 | £23,000 | ✓ |

Ers gosod y dangosydd yma mae'r rhagolygon economaidd ar gyfer cyfraddau llog wedi newid yn llwyr gyda dyfodiad y pandemig byd-eang. Y gyfradd llog ar gyfartaledd a dderbyniwyd ar falansau tymor byr oedd 0.07% yn ystod y cyfnod o chwe mis hyd at 30 Medi 2020, gyda buddsoddiadau mwy diweddar yn cael eu gwneud mor isel â 0.01%. Gosodwyd yr dangosydd hwn pan oedd y gyfradd sylfaenol yn 0.75% ac felly mae'n rhesymol bod cynnydd o 1% yn cael cymaint o effaith, ac mae'n dangos yr effaith ddifrifol y mae'r pandemig wedi'i chael ar enillion buddsoddiadau.

**Diogelwch:** Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol i ddangos ei sensitifrwydd i risg credyd trwy fonitro sgôr credyd cyfartalog yn ôl cyfran gwerth ei bortffolio buddsoddi. Caiff hyn ei gyfrifo trwy roi sgôr i bob buddsoddiad (AAA=1, AA+=2, ac ati) a chymryd y cyfartaledd rhifyddol, gan bwyso'r cyfartaledd yn ôl maint pob buddsoddiad.

| | **Targed** | **Gwir** | **Cydymffurfio** |
|---|---|---|---|
| Sgôr credyd cyfartal y portffolio | 6.0 | 3.98 | ✓ |

**Hylifedd:** Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol i ddangos ei sensitifrwydd i risg hylifedd trwy fonitro faint o arian sydd ar gael i gwrdd a thaliadau annisgwyl.

| | **30.9.20 Gwir** | **2020/21 Targed** | **Cydymffurfio** |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm arian ar gael o fewn 3 mis | £53.1m | £10m | ✓ |

**Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau:** Nod y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Cyngor i risg ail gyllido. Mae'r terfynau uchaf ac isaf ar strwythur aeddfedrwydd benthyciadau cyfradd sefydlog fel a ganlyn:

| | **Uchaf** | **Isaf** | **Gwir** |
|---|---|---|---|
| O dan 12 mis | 25% | 0% | 5.0% |
| 12 mis ac o fewn 24 mis | 25% | 0% | 1.4% |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 50% | 0% | 8.6% |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 75% | 0% | 9.9% |
| 10 mlynedd a throsodd | 100% | 0% | 75.1% |

Mae'r cyfnodau amser yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf pob blwyddyn ariannol. Y dyddiad aeddfedrwydd yw'r dyddiad cynharaf y gall y sawl sydd wedi rhoi'r benthyciad fynnu ad-daliad.

**Prif Symiau a Fuddsoddir am Gyfnodau sy'n Fwy na 364 diwrnod:** Pwrpas y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Cyngor i'r risg o fynd i golledion trwy orfod ad-dalu ei fuddsoddiadau'n gynnar. Bydd y terfynau ar gyfanswm y prif swm a fuddsoddir i aeddfedu'n derfynol tu hwnt i ddiwedd y cyfnod fel a ganlyn:

| | **2019/20** | **2020/21** | **2021/22** |
|---|---|---|---|
| Y prifswm a fuddsoddir y tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn | £0m | £0m | £0 |
| Terfyn ar brifswm a fuddsoddir tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn | £20m | £20m | £20m |
| **Cydymffurfio** | ✓ | ✓ | ✓ |

## 5. HYFFORDDIANT BUDDSODDI

Yn ystod y cyfnod, mynychodd swyddogion hyfforddiant buddsoddi gydag Arlingclose a CIPFA a oedd yn berthnasol i'w swyddi.

## 6. ERAILL

IFRS 16: Mae gweithredu safon gyfrifo newydd SAARh 16 Prydlesau wedi'i ohirio tan 2021/22.

## 7. RHAGOLGON AR GYFER GWEDDILL 2020/21

Mae rhagolygon economaidd byd-eang tymor canolig yn wan. Er bod y cyfyngiadau cloi cychwynnol llym wedi lleddfu, nid yw coronafirws wedi'i atal ac mae ail donnau wedi ysgogi mesurau mwy cyfyngol ar sail ranbarthol a chenedlaethol. Bydd y trai a'r llif cyfyngiadau hyn ar weithgaredd arferol yn parhau hyd y gellir rhagweld, o leiaf nes bod brechlyn effeithiol yn cael ei gynhyrchu ac yn bwysig, ei ddosbarthu.

Mae ymatebion banc canolog a llywodraeth fyd-eang wedi bod yn sylweddol ac mewn sawl achos yn barhaus, gan gynnal amodau ariannol, economaidd a chymdeithasol mwy sefydlog nag fel arall. Mae hyn wedi cefnogi adferiad economaidd sylweddol yn Ch3.

Er hynny, bydd graddfa'r sioc economaidd i'r galw, mesurau cadw pellter cymdeithasol parhaus, cyfnodau clo rhanbarthol a llai o gefnogaeth ariannol yn golygu bod cyflymder yr adferiad dilynol yn gyfyngedig. Mae arwyddion cynnar o hyn eisoes yn amlwg yn nata misol GDP a PMI y DU, hyd yn oed cyn y cyfyngiadau diweddaraf.

Bydd y sefyllfa yma yn arwain at fanciau canolog yn cynnal cyfraddau llog isel am y tymor canolig. Yn y DU, mae Brexit yn gymhlethdod pellach. Felly mae Gyfradd Banc yn debygol o aros ar lefelau isel am amser hir iawn, gyda phosibilrwydd penodol o gael ei dorri i ddim. Mae marchnadoedd arian wedi prisio mewn siawns o Gyfradd Banc negyddol.

Bydd cynnyrch tymor hir hefyd yn parhau i fod yn dirwasgedig, wedi'i angori gan gyfraddau polisi banc canolog isel, disgwyliadau ar gyfer cyfraddau a allai fod yn is

fyth a disgwyliadau chwyddiant merfaidd. Mae siawns y gall cynnyrch ddilyn llwybr ychydig yn wahanol yn y tymor canolig, yn dibynnu ar ganfyddiadau buddsoddwyr o dwf a chwyddiant, neu os yw'r DU yn gadael yr UE heb fargen.

Mae Arlingclose yn disgwyl i Gyfradd Banc aros ar y lefel gyfredol o 0.10% a llacio ariannol ychwanegol yn y dyfodol yn fwyaf tebygol trwy brynu asedau ariannol ymhellach (QE). Er nad yw achos canolog Arlingclose dros Gyfradd Banc yn unrhyw newid o'r lefel gyfredol o 0.1%, ni ellir diystyru toriadau pellach i Gyfradd Banc i sero neu hyd yn oed i diriogaeth negyddol yn llwyr.

Disgwylir i gynnyrch gilt aros yn isel iawn yn y tymor canolig. Mae cynnyrch gilt tymor byr yn negyddol ar hyn o bryd a byddant yn aros oddeutu sero neu'n is nes bydd Banc Lloegr yn diystyru Cyfradd Banc negyddol yn benodol neu y bydd rhagolygon twf/ chwyddiant yn gwella.

Mae risgiau anfantais yn parhau yn y tymor agos, wrth i'r llywodraeth leihau ei mesurau cymorth cyllidol, ymateb i'r risg o bydd cyfraddau heintiau'n cynyddu ymhellach a chyfnod trawsnewid Brexit yn dod i ben.

# Eitem 7

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| DYDDIAD: | **21 IONAWR 2021** |
| TEITL: | **CRONFA BAILLIE GIFFORD GLOBAL ALPHA PARIS ALIGNED** |
| PWRPAS: | **Gofyn i'r Pwyllgor Pensiynau gytuno i symud cronfa graidd Baillie Gifford i gronfa Baillie Gifford Global Alpha Paris Aligned.** |
| ARGYMHELLIAD: | **CYTUNO I'R BUDDSODDIAD NEWYDD** |
| AWDUR: | **DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

## 1. Cyflwyniad

Yng nghyfarfod Panel Buddsoddi Cronfa Bensiwn Gwynedd ar 14 Hydref 2020 cafodd y panel gyflwyniad gan Baillie Gifford ar ei gronfa Global Alpha Paris Aligned. Ar hyn o bryd mae Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi buddsoddi yng nghronfa craidd Baillie Giffordd sydd yn rhan o Gronfa Global Growth Partneriaeth Pensiwn Cymru.

## 2. Global Alpha Paris Aligned

Mae'r Global Alpha Paris- Aligned yn amrywiad carbon isel o'r model craidd ac mae'n cyd- fynd ag amcanion Cytundeb Paris.

Mae gan y Global Alpha Paris Aligned yr un tîm yn rhedeg y model, yr un athroniaeth fuddsoddi a dim newid i naill ai amcan perfformiad na ffi, ond mae dwy sgrin garbon wedi'u hychwanegu:

- O fewn y portffolio Global Alpha presennol, mae cwmnïau sy'n ymwneud ag archwilio a chynhyrchu tanwydd ffosil wedi'u heithrio o fewn trothwy refeniw penodol.
- Fframwaith ansoddol i ddeall lle mae risg a chyfle carbon yn y portffolio, gyda fframwaith 3 chwestiwn.

O ganlyniad, bydd saith cwmni yn cael eu heithrio.

Mae gan y gronfa Global Alpha Paris Aligned lai o Weighted Average Carbon Intensity (WACI) na'r meincnod newydd sbon MSCI ACWI Climate Paris Aligned.

Cafodd y gronfa yma ei gyflwyno i'r Panel Buddsoddi a cytunodd ein hymgynghorwyr y byddai'n fuddiol drosglwyddo ein daliadau cyfredol i'r gronfa newydd hon.

Rhaid i'r holl gronfeydd pensiwn cyfansoddol sydd yn rhan o'r Gronfa Global Growth gytuno i'r trosglwyddiad a bydd y penderfyniad swyddogol gan y Cyd- bwyllgor unwaith bydd yr holl gronfeydd wedi gwneud penderfyniad.

3. **Argymhelliad**

Gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo symud ein daliadau cyfredol yng nghronfa graidd Baillie Gifford i gronfa Global Alpha Paris Aligned Baillie Giffordd sy'n rhan o gronfa Global Growth Partneriaeth Pensiwn Cymru yn unol â'r drafodaeth yn y Panel Buddsoddi diweddaraf.

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| DYDDIAD: | **21 IONAWR 2021** |
| TEITL: | **GOSOD AMCANION I YMGYNGHORWYR BUDDSODDI** |
| PWRPAS: | **Adrodd ar gynnydd yn erbyn amcanion cyfredol ac adolygu amcanion y dyfodol** |
| ARGYMHELLIAD: | **NODI CYNNYDD A CHYMERADWYO AMCANION Y DYFODOL** |
| AWDUR: | **DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

## 1. CYFLWYNIAD

Ar ddiwedd 2018, yn dilyn adolygiad o'r marchnadoedd ymgynghori buddsoddi a rheoli ymddiriedol, nodwyd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ("CMA") dylai Ymddiriedolwyr Cronfeydd Pensiwn osod amcanion i'w ymgynghorwyr buddsoddi.

Mae'r amcanion wedi bod yn weithredol o 10fed o Ragfyr 2019.

## 2. GOSOD AMCANION I YMGYNGHORWYR BUDDSODDI

Mae'r CMA yn nodi y dylai amcanion ar gyfer ymgynghorwyr gynnwys diffiniad clir o'r canlyniad a ddisgwylir, a dylent:

- fod wedi'u cysylltu yn agos gydag amcanion strategol y gronfa bensiwn
- cael eu hadolygu o leiaf pob tair blynedd, ac ar ôl pob newid sylweddol i'r strategaeth fuddsoddi neu amcanion

Mae sefydlu amcanion tymor hir yn rhan o drefniadau llywodraethu da. Mae'r estyniad o osod amcanion i ymgynghorwyr buddsoddi yn gallu cael ei ystyried fel dilyniant naturiol i sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn anelu tuag at yr un nod.

## 3. AMCANION CRONFA BENSIWN GWYNEDD I YMGYNGHORWYR BUDDSODDI

Mae'r amcanion gan Gronfa Bensiwn Gwynedd yn Atodiad 1, gydag adroddiad cynnydd yn erbyn yr amcanion.

Mae datganiad cydymffurfio wedi ei arwyddo gan Gadeirydd y Pwyllgor Pensiynau erbyn y dyddiad cau gofynnol o 7fed Ionawr 2021.

## 4. AMCANION Y DYFODOL

Bydd yr amcanion cyfredol yn parhau am y cyfnod nesaf oni bai bod y pwyllgor eisiau nodi unrhyw welliannau.

## 5. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r adroddiad cynnydd a chymeradwyo amcanion yr Ymgynghorwyr Buddsoddi am y cyfnod nesaf.

| Amcanion Ymgynghorwyr | Adroddiad Cynnydd yn ystod 2020 |
|---|---|
| 1.I gynghori ar strategaeth fuddsoddi addas, a newidiadau i'r strategaeth, i gyflawni'r enillion buddsoddi gofynnol o fuddsoddiadau'r Gronfa i gefnogi cynnydd tuag at lefel cyllido sefydlog yn y tymor hir. | Mae cyngor wedi ei dderbyn ar y Strategaeth Buddsoddi yn ystod 2020 yn dilyn y prisiad teirblynyddol. |
| 2. I gyflawni dull buddsoddi sy'n adlewyrchu sefyllfa llif arian y Gronfa, ac esblygiad tebygol, a lleihau'r risg o ddadfuddsoddi gorfodol. | Mae amcanion strategol y Gronfa wedi eu nodi yn y Datganiad Strategaeth Buddsoddi ac mae'r Prisiad Actiwaraidd wedi cadarnhau bod y strategaeth fuddsoddi gyfredol yn rhoi tebygolrwydd uchel o gwrdd ag amcanion y Gronfa. |
| 3. I gynghori ar weithrediad cost-effeithiol y strategaeth fuddsoddi'r Gronfa fel bo'r angen, gan ystyried datblygiad Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC). | Mae'r ymarfer yma yn cael ei gynnal gyda Phartneriaeth Pensiwn Cymru. |
| 4. I sicrhau bod y cyngor yn cydymffurfio gyda rheoliadau pensiwn perthnasol, deddfwriaeth a chyngor arweiniol. | Mae'r holl drefniadau'n parhau i gydymffurfio. Ni fu unrhyw newidiadau rheoliadol diweddar yr oedd y Gronfa angen fod yn ymwybodol ohonynt. |
| 5. I ddatblygu polisïau a chredoau'r Pwyllgor, yn cynnwys rhai sy'n ymwneud â Buddsoddi Cyfrifol. | Adolygiad parhaus o'r polisi Buddsoddi Cyfrifol gan edrych os oes modd ehangu'r sgôp. Mae sylwadau wedi eu derbyn ar gronfeydd newydd Baillie Gifford Alpha Paris Aligned a charbon isel Black Rock. |
| 6. I sicrhau bod y cyngor yn adlewyrchu polisïau a chredoau'r Pwyllgor, yn cynnwys y rhai mewn perthynas â Buddsoddi Cyfrifol. | Mae cyngor parhaus wedi ei dderbyn ar fuddsoddiadau newydd i sicrhau eu bod yn gyson gyda'r strategaeth. |
| 7. I ddarparu cyngor perthnasol ac amserol. | Mae cyngor a diweddariadau cyson wedi eu derbyn.<br><br>Mae cyngor parhaus wedi ei dderbyn ar y trosglwyddiad i Bartneriaeth Pensiwn Cymru, yn enwedig gyda'r oedi yn y trosglwyddiad Incwm Sefydlog. |
| 8. I gynorthwyo'r Pwyllgor i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion buddsoddi. | Nid yw Hymans wedi darparu hyfforddiant uniongyrchol ar ddosbarthiadau ased newydd ond mae'r Pwyllgor wedi derbyn hyfforddiant drwy Bartneriaeth Pensiwn Cymru. Mae'r Gronfa wedi cymryd rhan yn yr Asesiad Gwybodaeth Genedlaethol i adnabod meysydd ar gyfer hyfforddiant y dyfodol. |
| 9. Bydd y gwasanaethau i gefnogi llywodraethu parhaus y Gronfa yn gymesur a chystadleuol o ran costau wrth gymharu gyda chyfoedion. | Mae ffioedd Hymans yn unol â ffioedd eu cyfoedion, gyda ffioedd sefydlog ar gyfer tasgau craidd, a chost amser ar gyfer tasgau ychwanegol. Mae ffioedd prosiectau penodol wedi eu cytuno ymlaen llaw. |

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | Pwyllgor Pensiynau |
| **Dyddiad:** | 21/01/2021 |
| **Teitl:** | Rheoliadau Taliadau Ymadael y Sector Cyhoeddus 2020 |
| **Pwrpas:** | Er gwybodaeth |
| **Awdur:** | Meirion Jones, Rheolwr Pensiynau |

## 1. Cyflwyniad

Daeth Rheoliadau Cyfyngu Taliadau Ymadael y Sector Cyhoeddus 2020 i rym ar 4 Tachwedd 2020. Mae'r rheoliadau'n cael cryn effaith ar drefniadau ymadael y sector cyhoeddus ar gyfer y cyrff cyhoeddus hynny a restrir yn yr atodlen i'r rheoliadau.

Mae'r ddeddfwriaeth yn deillio o fenter yn 2015, lle ceisiodd y llywodraeth ar y pryd leihau cost taliadau diswyddo sector cyhoeddus i'r trethdalwr.

Gweler y ddolen ganlynol am gopi o'r rheoliad llawn:

https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2020/9780348210170/contents

## 2. Beth yw cap ymadael y sector cyhoeddus a phwy sy'n cael ei effeithio?

O dan y cap, mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno terfyn ar faint o arian y gall cyflogwr yn y sector cyhoeddus ei dalu pan fydd gweithiwr yn gadael ei gyflogaeth.

Mae'r cap ymadael yn fwyaf tebygol o effeithio ar aelodau'r Gronfa Bensiwn os ydyn nhw'n gyflogai yn y sector cyhoeddus sy'n 55 oed neu'n hŷn ac yn cael eu diswyddo neu os ydyn nhw'n gadael eu cyflogaeth oherwydd effeithlonrwydd busnes. Mae hyn oherwydd bod y swm y mae'r cyflogwr yn ei dalu i'r gronfa bensiwn fel y gall yr aelod dderbyn ei bensiwn yn gynnar wedi'i gynnwys yn y cyfrifiad cap ymadael.

Ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd, effeithir ar y mathau canlynol o gyflogwyr:

- Cyngor cymunedol yng Nghymru a sefydlwyd o dan Ran II o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972
- Cyngor bwrdeistref a sirol a sefydlwyd o dan adran 20 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972
- Awdurdod Parc Cenedlaethol a sefydlwyd trwy orchymyn o dan adran 63 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 / Gorchymyn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Cymru)
- Careers Choices Dewis Gyrfa Limited (Masnachu fel Gyrfaoedd Cymru)

Gall y cyflogwr wneud cais i'r Llywodraeth am i'r cap beidio  cael ei ddefnyddio mewn rhai amgylchiadau cyfyngedig fel caledi gwirioneddol. I gyflogwr Cymru, gall yr amgylchiadau i

beidio defnyddio’r cap fod yn wahanol. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio ar hyn ar hyn o bryd - bydd gwybodaeth bellach yn dilyn.

3. **Pam mae'r cap ymadael wedi'i gyflwyno?**

Mae'r Llywodraeth yn poeni am y nifer a’r symiau o daliadau ymadael a wneir i weithwyr y sector cyhoeddus. Pwrpas y cap ymadael, yn ogystal â newidiadau arfaethedig eraill, yw sicrhau gwell defnydd o arian cyhoeddus a sicrhau bod gweithwyr ar draws y sector cyhoeddus yn cael eu trin mewn ffordd debyg.

4. **Faint yw'r cap ymadael a pha daliadau sydd wedi'u cynnwys wrth gyfrifo'r cap ymadael?**

Mae'r cap talu ymadael wedi'i osod ar gyfanswm o £ 95,000 na fydd yn gysylltiedig â mynegai. Mae'r taliadau ymadael yn cynnwys:

- taliadau diswyddo (gan gynnwys taliadau diswyddo statudol)
- costau straen pensiwn sy'n codi pan delir pensiwn CPLlL heb ei leihau cyn oedran pensiwn arferol aelod, a
- taliadau eraill a wneir o ganlyniad i derfynu cyflogaeth.

Nid yw unrhyw lwmp swm a delir i aelod o'r gronfa bensiwn, y cyfeirir ato weithiau fel grant ymddeol, yn cyfrif tuag at gyfrifo'r cap ymadael.

5. **Diwygiadau pellach gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG)**

Yn ogystal â'r cap ymadael, mae MHCLG wedi cynnig diwygiadau pellach.

Ar 7 Medi 2020, cyhoeddodd y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG) ymgynghoriad ar gyfyngu taliadau ymadael mewn llywodraeth leol yng Nghymru a Lloegr. Mae gan yr ymgynghoriad hwn oblygiadau ehangach na'r cap o £ 95k ac mae rheoliadau drafft wedi'u cyhoeddi fel rhan o'r ymgynghoriad. Bydd y cynigion hyn yn effeithio ar bob gweithiwr llywodraeth leol ac yn cynnig newid yr hawl awtomatig i fuddion pensiwn heb eu lleihau ar gyfer y rhai dros 55 oed sy'n gadael y cynllun ar gais eu cyflogwr oherwydd diswyddo / effeithlonrwydd. Daeth yr ymgynghoriad diwygio taliadau ymadael i ben ar gyfer ymatebion ar 9 Tachwedd 2020.

Y gobaith oedd y byddai'r cap ymadael a diwygiadau MHCLG wedi dod i rym gyda'i gilydd, ond ar hyn o bryd rydym yn dal i aros i'r diwygiad MHCLG fynd trwy'r Senedd.

Bydd cynigion MHCLG yn cyfyngu'r taliadau a wneir i weithwyr y cyflogwyr perthnasol, neu mewn perthynas â hwy, yn ogystal â hawl statudol fel a ganlyn:

- Cyfyngir y gwir dâl a ddefnyddir mewn cyfrifiadau diswyddo i £ 80,000;
- Bydd yr uchafswm tal diswyddo (gan gynnwys tâl diswyddo statudol) yn cael ei gyfyngu i dâl 3 wythnos am bob blwyddyn o wasanaeth neu 15 mis o gyflog, pa un bynnag yw’r isaf;
- Ni fydd unrhyw dal diswyddo yn daladwy os yw'r aelod yn derbyn pensiwn ar unwaith gyda thaliad gan y cyflogwr i dalu cost rhyddhau pensiwn yn gynnar - y gost straen - ac eithrio yn achos ble mae’r swm diswyddo yn fwy na'r gost straen ac felly bydd y gormodedd yn daladwy;
- Bydd y swm sydd ar gael ar gyfer unrhyw gost straen yn cael ei leihau gan y taliad diswyddo statudol.

Gweler y ddolen ganlynol am gopi o'r rheoliadau drafft:

https://lgpslibrary.org/assets/cons/lgpsew/20200907_DR.pdf

Hyd nes y daw'r diwygiadau pellach hyn i mewn, mae gwrthdaro rhwng y rheoliadau cap ymadael a rheoliadau'r CPLlL pan ddiswyddir aelod o'r cynllun sy'n 55 oed neu'n hŷn a bod cyfanswm y taliad ymadael yn fwy na £ 95,000. Mae rheoliadau CPLlL yn ei gwneud yn ofynnol i'r aelod dderbyn pensiwn heb ei leihau, ond mae'r rheoliadau cap ymadael yn atal y cyflogwr rhag talu'r gost straen lawn.

Hyd nes y bydd rheoliadau CPLlL yn cael eu diwygio rydym wedi penderfynu talu buddion wedi eu lleihau i aelodau. Ar ôl derbyn cyngor gan Hymans Robertson rydym hefyd wedi newid y ffactorau ymddeoliad cynnar a'r fethodoleg i gyfrifo'r gost straen. Rydym wedi mabwysiadu'r ffactorau a'r fethodoleg gyfrifo sy'n gyson â chanllawiau drafft GAD. Budd yr opsiwn hwn yw bod disgwyl i'r ffactorau hyn fod yn berthnasol yn y dyfodol unwaith y bydd Rheoliadau CPLlL yn cael eu diweddaru, felly byddai'r cyfrifiadau'n gyson dros amser. Fodd bynnag, ni all system feddalwedd weinyddol y Gronfa gyflawni'r cyfrifiadau hyn ar hyn o bryd, felly rydym ar hyn o bryd yn cyfrifo'r costau hyn â llaw.

## 6. Cymhwyso'r cap a'i ddiwygio ymhellach yn y CPLlL

Bydd effaith fawr i'r buddion sy'n daladwy i aelodau'r CPLlL sy'n 55 oed neu drosodd ar hyn o bryd ac yn gymwys i dderbyn pensiwn heb ei ostwng oherwydd diswyddiad neu ymddeoliad effeithlonrwydd yn ogystal â thaliad diswyddo o dan Reoliadau Lywodraeth Leol (Terfynu Cyflogaeth yn Gynnar) (Iawndal Dewisol) (Lloegr a Chymru) 2006.

Unwaith y bydd y cap a'r diwygiadau pellach ar waith ar gyfer aelodau lle mae eu cyflogwyr wedi'u capio ac yn destun diwygio pellach, bydd effaith y cynigion yn sylweddol gan y byddent yn derbyn un o'r opsiynau canlynol:

- bod â phensiwn cwbl heb ei ostwng yn cael ei dalu ar unwaith ochr yn ochr â'r taliad diswyddo statudol ond dim ond os yw'r gweithiwr yn ychwanegu at y gost straen, a fydd wedi'i ostwng gan werth ei dâl diswyddo statudol;
- bod â phensiwn wedi'i leihau'n rhannol (h.y. heb ei ostwng oherwydd taliad cynnar, ond wedi'i ostwng oherwydd y taliad diswyddo statudol sy'n lleihau'r gost straen) a delir yn syth ochr yn ochr â'r taliad diswyddo statudol;
- cael pensiwn wedi'i leihau'n llawn wedi'i dalu'n syth ochr yn ochr â'r taliad diswyddo statudol ynghyd ag unrhyw hawl i daliad diswyddo dewisol a chyfandaliad ychwanegol dewisol ychwanegol;
- gohirio'r pensiwn i oedran pensiwn arferol (h.y. peidio â'i gymryd ar unwaith) a chael y taliad diswyddo statudol ynghyd ag unrhyw hawl i daliad diswyddo dewisol a thaliad cyfandaliad ychwanegol dewisol.

Mae'r uchod yn tybio bod y cyflogwr yn gyflogwr wedi'i gapio a'i ddiwygio, bydd yr union effaith ar aelodau yn dibynnu os ydynt yn ffitio o dan y ddau ddiffiniad neu'r naill ddiffiniad neu'r llall.

Disgwylir y bydd y diwygiadau MHCLG yn dod i rym Gwanwyn 2021.

Ar hyn o bryd mae ein darparwr meddalwedd, Aquila Heywood, yn gweithio ar ddiweddaru'r system er mwyn iddi gyfrifo'r holl opsiynau newydd. Yn y cyfamser bydd yn rhaid i ni gyflawni'r cyfrifiadau cymhleth hyn â llaw.

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | Pwyllgor Pensiynau |
| **Dyddiad:** | 21/01/2021 |
| **Teitl:** | Polisi Cyfathrebu newydd |
| **Pwrpas:** | I dderbyn cymeradwyaeth y Pwyllgor i fawbwysiadu y Datganiad Polisi Cyfathrebu newydd |
| **Awdur:** | Meirion Jones, Rheolwr Pensiynau |

**1. Cyflwyniad**

Mae'n rhaid i'r Gronfa ddarparu, cynnal a chyhoeddi datganiad polisi cyfathrebu yn unol â Rheoliad 67 o Reoliadau Gweinyddu Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL).

Mae'n rhaid i'r polisi cyfathrebu gael ei adolygu a'i ailgyhoeddi yn dilyn unrhyw newid mewn polisi. Yn anffodus nid yw polisi Gwynedd wedi cael ei ddiweddaru ers 2010

**2. Pwrpas**

Pwrpas y polisi hwn yw cyhoeddi datganiad yn nodi'r polisi sy'n ymwneud â'r dulliau cyfathrebu â rhanddeiliaid Cronfa Bensiwn Gwynedd (y Gronfa).

Yn unol â rheoliadau'r CPLlL, mae'r polisi cyfathrebu'n manylu ar:

- darparu gwybodaeth a chyhoeddusrwydd am y cynllun
- fformat, amlder a dull dosbarthu gwybodaeth a chyhoeddusrwydd
- hyrwyddo'r cynllun i ddarpar aelodau a'u cyflogwyr.

**3. Casgliad**

Mae nifer o newidiadau wedi digwydd mewn perthynas â'r ffordd y mae'r gronfa'n cyfathrebu o fewn y 11 mlynedd diwethaf, felly rydym wedi diwygio'r datganiad i gynnwys ein dulliau cyfathrebu cyfredol.

Cyflwynwyd y polisi newydd i'r Bwrdd Pensiwn yn eu cyfarfod diwethaf, gyda mân newidiadau yn cael eu gwneud i'r ddogfen yn dilyn yr adborth a gafwyd.

Er mwyn i'r polisi newydd gael ei fabwysiadu byddwn yn gwerthfawrogi derbyn cymeradwyaeth y Pwyllgor.

# Datganiad Polisi Cyfathrebu

Ionawr 2021

# Cynnwys

Cyflwyniad....2
1.1 - Cyfathrebu ag aelodau actif....3
1.2 - Cyfathrebu ag aelodau gohiriedig....5
1.3 - Cyfathrebu â phensiynwyr....6
1.4 - Cyfathrebu â darpar aelodau....7
2 - Cyfathrebu â Chyflogwyr y cynllun....8
3.1 - Cyfathrebu â'r Pwyllgor pensiynau a'r Bwrdd pensiwn lleol....9
3.2 - Cyfathrebu â staff y Gronfa Bensiwn....10
3.3 - Cyfathrebu gyda chyrff eraill....11
Cysylltu â Chronfa Bensiwn Gwynedd....12

# DATGANIAD POLISI CYFATHREBU

## Cyflwyniad

Mae rheoliad 61 o'r Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) 2013 yn nodi bod gofyn i bob awdurdod gweinyddu gyhoeddi datganiad polisi ynghylch cyfathrebu â budd-ddeiliaid allweddol.

Cyngor Gwynedd yw'r awdurdod sy'n gweinyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd ac mae budd-ddeiliaid allweddol y Gronfa yn cynnwys:

1. **Aelodau o'r Cynllun:**
   1.1. Aelodau Actif
   1.2. Aelodau Gohiriedig
   1.3. Pensiynwyr
   1.4. Darpar aelodau'r cynllun

2. **Cyflogwyr y Cynllun**

3. **Cyrff eraill:**
   3.1. Y Pwyllgor Pensiynau a'r Bwrdd Pensiynau
   3.2. staff y Gronfa Bensiwn
   3.3. Cyrff cyffredinol

Mae'r datganiad cyfathrebu hwn yn nodi'r polisi ar gyfer darparu gwybodaeth a sut y mae'r Gronfa yn bwriadu rhoi cyhoeddusrwydd, hyrwyddo a datblygu'r cynllun i bob grŵp budd-ddeiliaid. Bydd yn cael ei adolygu'n gyson a'i ddiwygio pan fydd newid perthnasol yn y polisi.

Nod y Gronfa yw darparu gwasanaeth cyson o safon uchel i'w budd-ddeiliaid yn y modd mwyaf effeithlon a chost-effeithiol.

Y bwriad yw ein bod yn cyfathrebu mor amserol â phosibl, yn ffeithiol ac mewn iaith glir, ac yn cael ei gyflwyno mewn modd sy'n briodol i'r derbynnydd. Os oes gan unigolion anghenion penodol mewn perthynas â fformat y wybodaeth, cymerir camau i sicrhau bod y fformat gofynnol ar gael, megis Braille, sain, a phrint bras.

Mae holl gyhoeddiadau Cronfa Bensiwn Gwynedd yn ddwyieithog, yn unol â pholisi iaith Cyngor Gwynedd. Gall gwybodaeth mewn ieithoedd eraill fod ar gael ar gais.

Pan fydd newidiadau deddfwriaethol i'r cynllun yn hysbys ymlaen llaw, bydd gweithdrefnau'n cael eu rhoi yn eu lle i weithredu'r newidiadau yn y ffordd fwyaf effeithiol.

# 1.1- Cyfathrebu ag aelodau actif

Aelodau Actif (gan gynnwys Cynghorwyr) yw'r rhai sy'n cyfrannu i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol drwy un o'r cyflogwyr sy'n rhan o Gronfa Bensiwn Gwynedd. Disgrifir y dulliau cyfathrebu â'r aelodau hyn isod.

- Gwefan - Mae gwefan Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cynnwys adran benodol i aelodau actif. Mae'n darparu gwybodaeth gyffredinol am y CPLlL gan gynnwys trosglwyddiadau, ychwanegu at eich buddion, ymddeoli, ysgariad, buddion marwolaeth, lwfansau treth a chwestiynau a ofynnir yn aml. Ychwanegir eitemau newyddion pan fo angen i roi gwybod i'r Aelodau am unrhyw newidiadau i'r cynllun. Mae adran ar wahân ar gyfer buddion pensiwn i Gynghorwyr.
- Hunan Wasanaeth Aelodau - Mae porth ar wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd yn caniatáu i'r staff weld a diweddaru eu data pensiwn yn ddiogel ar-lein, megis mynegiant o ddymuniad y grant marwolaeth, manylion cyswllt, datganiadau buddion blynyddol a llythyrau. Mae'r offer cynllunio yn galluogi Aelodau i wneud cyfrifiadau pensiwn a pharatoi ar gyfer eu hymddeoliad.
- Digwyddiadau cyflogwyr – Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd ar gael i fynychu digwyddiadau cyflogwyr ar gais a darparu stondin bensiwn lle gall Aelodau drafod unrhyw faterion pensiwn gyda staff y gronfa a darparu llenyddiaeth berthnasol am y cynllun.
- Cyflwyniadau – Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd bob amser ar gael i gynnig cyflwyniadau ar y cynllun. Cynhelir cyflwyniadau hefyd pan fydd eu hangen i roi gwybod i Aelodau Actif am newidiadau mawr i Reoliadau'r cynllun. Gellir cynnal sesiynau gwybodaeth arbenigol hefyd ar gais y cyflogwr ar gyfer aelodau yr effeithir arnynt gan drosglwyddiadau TUPE o'r CPLlL i ddarparwyr pensiwn eraill.
- Cyrsiau cyn-ymddeol - Cynhelir rhaglen o chwech cwrs gan Chadwicks IFA, cwmni o ymgynghorwyr ariannol o Gaer bob blwyddyn. Mae cronfeydd pensiwn Gwynedd a Sir y Fflint yn darparu cyflwyniadau am yn ail ynghylch y CPLlL yn y digwyddiadau hyn.
- Sesiynau ymgynghori – Gall swyddogion cyfathrebu Cronfa Bensiwn Gwynedd gynnal sesiwn ymgynghori unigol ar gyfer aelodau'r cynllun ar gais cyflogwyr y gronfa. Fel arfer, cynhelir ymgynghoriadau yn safleoedd gwaith y gweithwyr cyflogedig ac maent yn cynnig cyfle i Aelodau'r cynllun dderbyn gwybodaeth gyffredinol a phenodol am y CPLlL ac yn gofyn unrhyw gwestiwn sydd ganddynt yn ymwneud â'u pensiwn CPLlL.
- Apwyntiadau unigol - Gall aelodau actif drefnu apwyntiad gydag aelod o staff Cronfa Bensiwn Gwynedd yn y swyddfa bensiwn yng Nghaernarfon.
  - Mewn rhai achosion (e.e. salwch terfynol) bydd cynrychiolydd o Gronfa Bensiwn Gwynedd yn ymweld ag aelod yn eu cartref ar gais eu cyflogwr.
- Llenyddiaeth y Gronfa –
  - Pecyn cychwynnol pensiynau – Dosbarthir pan fydd cyflogwr yn ein hysbysu o aelod newydd. Mae yn cynnwys canllaw byr i'r CPLlL, ffurflen

gychwyn pensiwn, ffurflen mynegi dymuniad grant marwolaeth a hysbysiad statudol o ymuno â'r cynllun.

  - Canllaw Byr. Mae'r canllaw byr yn rhoi gwybodaeth gyffredinol ar y CPLlL ac yn cael ei anfon at bob gweithiwr newydd ac at aelodau presennol os gofynnir amdano. Gall copïau o'r canllaw byr hefyd cael ei ddarparu mewn Braille, print bras a sain ar ofyn.
  - Canllaw ymddeol. Mae'r canllaw ar ymddeol yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer talu buddion pensiwn ac yn nodi'r buddion sy'n daladwy i oroeswyr os bu'r aelod farw a'r pethau pwysicaf eraill i'w nodi.
  - Ffeithlenni. Mae amrywiaeth o ffeithlenni wedi'u cynhyrchu ar gyfer aelodau'r cynllun sy'n rhoi gwybodaeth am bynciau penodol sy'n ymwneud â'r CPLlL.

- Cylchlythyrau - Rydym yn cyhoeddi cylchlythyrau i aelodau gweithredol yn ôl yr angen i roi gwybodaeth ddiweddaraf iddynt am newidiadau yn Rheoliadau'r cynllun.
- Datganiadau Buddion Blynyddol - Bob blwyddyn rydym yn cyhoeddi datganiad i bob aelod yn dangos gwerth eu buddion hyd at y 31 Mawrth blaenorol ac yn rhagweld y buddion sy'n daladwy ar oedran pensiwn y wladwriaeth. Fe'u llwythir yn awtomatig i'r porth Hunan Wasanaeth Aelodau neu fe'u hanfonir yn uniongyrchol i'w cyfeiriad cartref os ydynt wedi dewis peidio â chofrestru.
- Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon - Mae copi electronig o adroddiad blynyddol a Chyfrifon y Gronfa ar gael i holl Aelodau'r cynllun ar y wefan. Mae copïau caled ar gael hefyd ar gais.
- Gohebiaeth - Mae'r Gronfa yn defnyddio post papur ac e-bost i dderbyn ac anfon gohebiaeth. Bydd ymateb yn cael ei wneud yn dewis iaith yr unigolyn.
- Hysbysiad statudol - caiff Aelodau eu hysbysu pan fydd unrhyw newid yn digwydd i'w cofnod pensiwn, gan effeithio ar eu pensiwn.
- Llinell Gymorth Pensiynau – Mae un rhif llinell gymorth ar gael ar gyfer pob ymholiad pensiwn ac mae cyfeiriad e-bost penodol ar gael ar gyfer ymholiadau drwy e-bost.
- Ymgyrch bosteri – Caiff ymgyrch bosteri ei rhoi ar waith pan fydd angen cyfleu newidiadau mawr i'r cynllun i aelodau actif y cynllun. Dosbarthir i gyflogwyr fel y gellir eu harddangos ar safleoedd gwaith yr aelodau.
- Taflen Gweithdrefn Datrys Anghydfod Mewnol (GDAM) - Mae dogfen sy'n ymdrin â cham 1 y GDAM ar gael ar gais.

# 1.2 - Cyfathrebu ag aelodau gohiriedig

Aelodau gohiriedig (gan gynnwys Aelodau sy'n gynghorwyr) yw'r rhai sydd wedi gadael eu cyflogaeth á chyflogwr y cynllun ac sydd â buddion wedi'u cadw o fewn y Gronfa. Disgrifir y dulliau cyfathrebu â'r aelodau hyn isod.

- Gwefan - Mae gwefan cronfa bensiwn Gwynedd yn cynnwys adran benodol ar gyfer aelodau gohiriedig. Mae'n darparu gwybodaeth gyffredinol am y CPLlL gan gynnwys trosglwyddiadau, ymddeoliadau, ysgariad, buddion marwolaeth a chwestiynau a ofynnir yn aml. Ychwanegir eitemau newyddion pan fo angen i roi gwybod i'r Aelodau am unrhyw newidiadau i'r cynllun. Mae adran ar wahân ar gyfer buddion pensiwn i Gynghorwyr sy'n gadael cyn oed ymddeol.
- Hunan Wasanaeth Aelodau - Mae porth ar wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd yn caniatáu i'r aelodau weld a diweddaru eu data pensiwn yn ddiogel ar-lein, megis mynegiant o ddymuniad y grant marwolaeth, manylion cyswllt, datganiadau buddion blynyddol a llythyrau. Mae'r offer cynllunio yn galluogi Aelodau i wneud cyfrifiadau pensiwn a pharatoi ar gyfer eu hymddeoliad.
- Apwyntiadau unigol - Gall aelodau gohiriedig drefnu apwyntiad gydag aelod o staff cronfa bensiwn Gwynedd yn y swyddfa bensiwn yng Nghaernarfon.
    - Mewn rhai achosion (e.e. salwch terfynol) bydd cynrychiolydd o gronfa bensiwn Gwynedd yn ymweld ag aelod yn eu cartref ar gais eu cyn cyflogwr, cynrychiolydd, neu'r unigolyn.
- Llenyddiaeth y Gronfa –
    - Canllaw ymddeol. Mae'r canllaw ar ymddeol yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer talu buddion pensiwn ac yn nodi'r buddion sy'n daladwy i oroeswyr os bu'r aelod farw a'r pethau pwysicaf eraill i'w nodi.
    - Ffeithlenni. Mae amrywiaeth o ffeithlenni wedi'u cynhyrchu ar gyfer aelodau'r cynllun sy'n rhoi gwybodaeth am bynciau penodol sy'n ymwneud â'r CPLlL.
- Cylchlythyrau - Rydym yn dosbarthu cylchlythyrau cyfnodol i aelodau gohiriedig i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am newidiadau yn Rheoliadau'r cynllun.
- Datganiadau Buddion Gohiriedig - Bob blwyddyn rydym yn cyhoeddi datganiad i bob aelod gohiriedig yn dangos gwerth cyfredol eu buddion pensiwn. Fe'u llwythir yn awtomatig i'r porth Hunan Wasanaeth Aelodau neu fe'u hanfonir yn uniongyrchol i'w cyfeiriad cartref os ydynt wedi dewis peidio â chofrestru.
- Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon - Mae copi electronig o adroddiad blynyddol a Chyfrifon y Gronfa ar gael i holl Aelodau'r cynllun ar y wefan. Mae copïau caled ar gael hefyd ar gais.
- Gohebiaeth - Mae'r Gronfa yn defnyddio post papur ac e-bost i dderbyn ac anfon gohebiaeth. Bydd ymateb yn cael ei wneud yn dewis iaith yr unigolyn.
- Llinell Gymorth Pensiynau – Mae un rhif llinell gymorth ar gael ar gyfer pob ymholiad pensiwn ac mae cyfeiriad e-bost penodol ar gael ar gyfer ymholiadau drwy e-bost.
- Taflen Gweithdrefn Datrys Anghydfod Mewnol (GDAM) - Mae dogfen sy'n ymdrin â cham 1 y GDAM ar gael ar gais.

# 1.3- Cyfathrebu â phensiynwyr

Mae pensiynwyr yn cynnwys Aelodau sydd wedi ymddeol a dibynyddion Aelodau ymadawedig. Disgrifir y dulliau cyfathrebu â phensiynwyr isod.

- Gwefan - Mae gwefan Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cynnwys adran benodol ar gyfer pensiynwyr. Mae'n rhoi gwybodaeth gyffredinol am y CPLlL gan gynnwys, ysgariad, buddion marwolaeth, dyddiadau talu, byw dramor, cynnydd pensiwn a chwestiynau a ofynnir yn aml. Ychwanegir eitemau newyddion pan fo angen i hysbysu pensiynwyr o unrhyw newidiadau i'r cynllun.
- Hunan Wasanaeth Aelodau - Mae porth ar wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd yn caniatáu i bensiynwyr weld a diweddaru eu data pensiwn yn ddiogel ar-lein, megis mynegiant o ddymuniad y grant marwolaeth, manylion cyswllt a llythyrau.
- Apwyntiadau unigol - Gall pensiynwyr drefnu apwyntiad gydag aelod o staff Cronfa Bensiwn Gwynedd yn y swyddfa bensiwn yng Nghaernarfon.
- Slipiau cyflog a P60 – Anfonir slip cyflog i bensiynwr pan fydd y taliad nesaf yn newid o £5 neu fwy o'i gymharu â'r mis blaenorol.  Mae pob pensiynwr yn derbyn cyfuniad P60 a slip cyflog ar ddiwedd pob blwyddyn dreth.
- Hysbysiad o Gynnydd Pensiynau – Pob mis Ebrill, mae pensiynwyr yn cael rhybudd o'r Cynnydd Pensiwn a fydd yn cael ei weithredu are u pensiwn (os yn berthnasol) a byddent hefyd yn cael cadarnhad o'r dyddiadau cyflog ar gyfer y 12 mis nesaf.
- Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon - Mae copi electronig o adroddiad blynyddol a Chyfrifon y Gronfa ar gael i holl Aelodau'r cynllun ar y wefan. Mae copïau caled ar gael hefyd ar gais.
- Gohebiaeth - Mae'r Gronfa yn defnyddio post papur ac e-bost i dderbyn ac anfon gohebiaeth. Bydd ymateb yn cael ei wneud yn dewis iaith yr unigolyn.
- Llinell Gymorth Pensiynau – Mae un rhif llinell gymorth ar gael ar gyfer pob ymholiad pensiwn ac mae cyfeiriad e-bost penodol ar gael ar gyfer ymholiadau drwy e-bost.
- Llongyfarchiadau ar Ben-blwydd - Bydd pensiynwyr, gan gynnwys y rhai sy'n derbyn buddion dibynyddion, sy'n dathlu eu pen-blwydd yn 100 oed yn derbyn cerdyn pen-blwydd gan Gronfa Bensiwn Gwynedd.
- Taflen Gweithdrefn Datrys Anghydfod Mewnol (GDAM) - Mae dogfen sy'n ymdrin â cham 1 y GDAM ar gael ar gais.

# 1.4- Cyfathrebu â darpar aelodau

Darpar aelodau yw gweithwyr sy'n gymwys i ymuno â'r CPLlL gydag un o gyflogwyr Cronfa Bensiwn Gwynedd ond wedi penderfynu peidio. Disgrifir y dulliau cyfathrebu â darpar aelodau isod.

- Gwefan - Mae gwefan Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cynnwys adran benodol ar gyfer ddarpar aelodau. Mae'n darparu gwybodaeth gyffredinol am y CPLlL gan gynnwys rhesymau dros ymuno, trosglwyddiadau, cyfraddau cyfrannu, ymddeoliad, optio allan a chwestiynau a ofynir yn aml. Ychwanegir eitemau newyddion pan fo angen i roi gwybod i'r Aelodau am unrhyw newidiadau i'r cynllun. Mae adran ar wahân ar gyfer buddion pensiwn i Gynghorwyr sy'n gymwys i ymuno.
- Digwyddiadau cyflogwyr – Mae cronfa bensiwn Gwynedd ar gael i fynychu digwyddiadau cyflogwyr ar gais a darparu stondin bensiwn lle gall darpar Aelodau drafod unrhyw faterion pensiwn gyda staff y gronfa bensiwn a darparu llenyddiaeth a ffurflenni cynllun perthnasol.
  Mae cronfa bensiwn Gwynedd yn annog cyflogwyr i gynnwys pensiynau fel rhan o ddigwyddiadau sefydlu staff a bydd yn darparu llenyddiaeth a ffurflenni. Gallai'r tîm cyfathrebu fod yn bresennol ar gais.
- Sesiynau ymgynghori - Gall swyddogion cyfathrebu Cronfa Bensiwn Gwynedd gynnal sesiwn ymgynghori unigol ar gyfer aelodau'r cynllun a darpar aelodau ar gais cyflogwyr. Fel arfer, cynhelir ymgynghoriadau yn safleoedd gwaith y gweithwyr ac maent yn cynnig cyfle i Aelodau'r cynllun dderbyn gwybodaeth gyffredinol a phenodol am y CPLlL ac yn gofyn unrhyw gwestiwn a allai fod ganddynt ynghylch ymuno â'r CPLlL.
- Penodiadau unigol - gall darpar Aelodau drefnu apwyntiad gydag aelod o staff cronfa bensiwn Gwynedd yn y Swyddfa bensiwn yng Nghaernarfon.
- Llenyddiaeth y Gronfa –
  - Canllaw Byr. Mae'r canllaw byr yn rhoi gwybodaeth gyffredinol ar y CPLlL ac yn cael ei anfon at bob gweithiwr newydd ac ar gais. Gall copïau o'r canllaw byr hefyd cael ei ddarparu mewn Braille, print bras a sain ar ofyn.
  - Ffeithlenni. Mae amrywiaeth o ffeithlenni wedi'u cynhyrchu ar gyfer aelodau'r cynllun sy'n rhoi gwybodaeth am bynciau penodol sy'n ymwneud â'r CPLlL.
- Gohebiaeth - Mae'r Gronfa yn defnyddio post papur ac e-bost i dderbyn ac anfon gohebiaeth. Bydd ymateb yn cael ei wneud yn dewis iaith yr unigolyn.
- Llinell Gymorth Pensiynau – Mae un rhif llinell gymorth ar gael ar gyfer pob ymholiad pensiwn ac mae cyfeiriad e-bost penodol ar gael ar gyfer ymholiadau drwy e-bost.
- Ymgyrch bosteri – Caiff ymgyrch bosteri ei rhoi ar waith pan fydd angen cyfleu newidiadau mawr i'r cynllun i aelodau actif y cynllun. Dosbarthir i gyflogwyr fel y gellir eu harddangos ar safleoedd gwaith yr aelodau.

# 2 Cyfathrebu â Chyflogwyr y cynllun

I alluogi Cyngor Gwynedd fel awdurdod gweinyddu i redeg y cynllun yn effeithlon mae'n hanfodol bod llif gwybodaeth gywir, amserol a chlir rhwng cyflogwyr y cynllun â'r Gronfa yn cael ei gynnal trwy gyfathrebu effeithiol.

Disgrifir y dulliau cyfathrebu â chyflogwyr y cynllun isod.

- Gwefan - Mae ein gwefan yn cael ei hadolygu i ddatblygu adran benodol ar gyfer cyflogwyr y cynllun. Mae'r wefan hefyd yn cynnwys holl ddogfennau llywodraethu'r gronfa bensiwn, er enghraifft yr adroddiad prisiad actiwaraidd, dogfennau polisi a'r adroddiad blynyddol a Chyfrifon. Mae yna hefyd ddolenni i ffynonellau gwybodaeth bellach fel gwefan benodol CPLlL y Gymdeithas Llywodraeth Leol (LGA).
- i-Connect - Mae i-Connect yn borth diogel ar-lein sy'n cymryd data'n uniongyrchol o'r system gyflogres ac yn ei fwydo'n uniongyrchol i'r system bensiwn yn fisol. Mae'n nodi a phrosesu aelodau newydd, pobl sy'n ymuno a gadael, ac yn galluogi'r cyflogwr i wirio a glanhau'r data cyn ei gyflwyno.
- Cronfa Ddata Cysylltiadau - Cyflwynir diweddariadau rheoleiddio a gweinyddol yn aml i'r holl gyflogwyr a restrir ar y gronfa ddata cysylltiadau drwy e-bost neu lythyr. Mae'r gronfa ddata cysylltiadau cyflogwyr yn cael ei diwygio yn ôl yr angen yn unol á wybodaeth a dderbynnir gan Gyflogwyr.
- Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol - Cynhelir y cyfarfod cyffredinol blynyddol yn benodol ar gyfer Cyflogwyr a Chynrychiolwyr Undebau i drafod yr adroddiad blynyddol a Chyfrifon. Mae cynrychiolwyr o gyrff cynghori proffesiynol amrywiol, fel Actwari'r Gronfa a Rheolwyr y Gronfa hefyd yn mynychu er mwyn ateb cwestiynau ynghylch cyllid, perfformiad buddsoddi a phrisiannau.
- Cyfarfodydd Cyflogwyr - Yn ôl y gofyn i drafod materion testunol, newidiadau sylweddol i ddeddfwriaeth, cyn ac ar ôl y prisiad Actiwaraidd a darparu gwybodaeth a thrafod gwelliannau yn y llif gwybodaeth.
- Cyfarfodydd Cyflogwyr Unigol - Gellir trefnu cyfarfodydd gyda chyflogwyr unigol i drafod materion sy'n benodol i'w aelodaeth yn y Gronfa Bensiwn, neu i roi cyngor ac arweiniad ar faterion penodol.
- Cyfarfodydd Hyfforddi Cyflogwyr Unigol - Gellir trefnu'r rhain i ddatrys unrhyw faterion hyfforddiant gweinyddol a nodwyd gan naill ai'r cyflogwr, neu'r Gronfa. Cynhelir y sesiynau hyn mewn lleoliadau cyflogwyr, a chaiff datblygiadau eu monitro a'u hadolygu'n gyfnodol wedi hynny.
- Canllaw i gyflogwyr - Mae'r canllaw newydd i gyflogwyr yn y broses o gael ei gwblhau a chaiff ei ddosbarthu'n electronig i bob cyflogwr a'i lwytho ar ein gwefan.
- Cytundebau Lefel Gwasanaeth – Er mwyn gwella safon y gwasanaeth i Aelodau rydym yn bwriadu sefydlu Cytundebau Lefel Gwasanaeth gyda'r Cyflogwyr. Bydd yn rhoi arweiniad ar rwymedigaethau a chyfrifoldebau statudol a gosod targedau ar gyfer cyflogwyr a'r awdurdod gweinyddu er mwyn –
    - Darparu gwybodaeth gywir
    - Gweithredu ar y wybodaeth honno ac ymateb o fewn amser penodol

  Bydd unrhyw dargedau ar gyfer y cytundebau yn cael eu cytuno ymlaen llaw.

# 3.1- Cyfathrebu â'r Pwyllgor pensiynau a'r Bwrdd pensiwn lleol

Fel awdurdod gweinyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd, mae Cyngor Gwynedd wedi ffurfio Pwyllgor Pensiynau a Bwrdd Pensiynau sy'n cwrdd bob chwarter i gyflawni dyletswyddau'r Cyngor mewn perthynas â llywodraethu a gweinyddu'r Gronfa.

Y Pwyllgor Pensiynau sy'n gyfrifol am gymeradwyo dogfennau llywodraethu'r Gronfa Bensiwn, gan gynnwys yr adroddiad blynyddol a Chyfrifon a pholisïau'r gronfa bensiwn. Maent hefyd yn gyfrifol am benderfynu ar Strategaeth Fuddsoddi'r Gronfa Bensiwn a phenodi Rheolwyr Buddsoddi. Mae'r Pwyllgor Pensiynau yn cynnwys naw chynghorwr etholedig.

Mae'r Bwrdd Pensiynau yn gyfrifol am oruchwylio gwaith y Pwyllgor Pensiynau ac maent yn cynorthwyo'r Gronfa Bensiwn i gydymffurfio â'r holl ofynion deddfwriaethol, gan sicrhau bod y Cynllun yn cael ei lywodraethu a'i reoli'n effeithiol ac yn effeithlon. Mae gan y Bwrdd Pensiynau tri cynrychiolydd sy'n aelod o'r cynllun a tri cynrychiolydd cyflogwyr, gyda un ohonynt yn cael eu hethol fel Cadeirydd.

I hwyluso gwaith y Pwyllgor Pensiynau a'r Bwrdd Pensiynau, darperir holl ddogfennau'r gronfa bensiwn iddynt, gan gynnwys yr adroddiad blynyddol a Chyfrifon, yr adroddiad actiwaraidd, dogfennau polisi, adroddiadau a phenderfyniadau'r Pwyllgor pensiynau ac Adroddiadau'r Bwrdd Pensiynau.

Disgrifir y dulliau cyfathrebu gyda'r Pwyllgor Pensiynau ac aelodau'r Bwrdd isod.

- Ebyst - E-bost yw'r dull cyfathrebu dewisol ar gyfer negeseuon cyffredinol.
- Adroddiadau – rhoddir yr adroddiadau canlynol i'r Pwyllgor ac i aelodau'r Bwrdd:
    - Adroddiadau blynyddol a Chyfrifon - Y cyhoeddiad allweddol ar fuddsoddi a gweinyddu.
    - Adroddiad actiwaraidd - Yn dilyn prisiad tair flynyddol y Gronfa
    - Adroddiadau arbenigol – Cynhyrchwyd gan Gronfa Bensiwn Gwynedd i'w hystyried.
- Polisïau'r Gronfa Bensiwn – Mae gan y Pwyllgor fynediad at holl bolisïau Cronfa Bensiwn Gwynedd i'w hystyried a'u cymeradwyo
- Cyflwyniadau – Gwahoddir Aelodau'r Pwyllgor a'r Bwrdd i gyflwyniadau gan Gronfa Bensiwn Gwynedd a chynghorwyr ar fuddsoddiadau, materion actiwaraidd a gweinyddu.
- Hyfforddiant - Mae'n ofynnol i Aelodau'r Pwyllgor ac aelodau'r Bwrdd Pensiynau ymgymryd â hyfforddiant perthnasol i'w galluogi i gyflawni eu rolau'n effeithiol. Gall hyfforddiant gael ei wneud yn fewnol, gan LGA, rheolwyr buddsoddi a chynghorwyr y gronfa bensiwn neu Actiwari'r gronfa bensiwn.
- Agenda a chofnodion – Mae'r agenda a'r cofnodion ar gyfer pob cyfarfod yn cael eu cyhoeddi ar wefan Cyngor Gwynedd.

# 3.2- Cyfathrebu â staff y Gronfa Bensiwn

Mae cyfathrebu effeithiol gyda staff y Gronfa yn rhan bwysig o weithrediadau dyddiol ac mae'n galluogi Cronfa Bensiwn Gwynedd i ddarparu gwasanaeth o ansawdd a chywir i'n budd-ddeiliaid allweddol.

Disgrifir y dulliau cyfathrebu â staff y gronfa bensiwn isod.

- Sefydlu – Mae pob aelod newydd o staff yn dilyn rhaglen sefydlu.
- E-byst - E-bost yw'r dull cyfathrebu dewisol ar gyfer negeseuon cyffredinol o fewn yr uned. Lle bo angen, caiff hyn ei ddilyn gan hyfforddiant unigol neu dîm.
- Sgwrs grŵp WhatsApp - Yn ystod argyfyngau pan nad yw e-bost ar gael bydd negeseuon cyffredinol yn cael eu rhannu ar WhatsApp.
- Hyfforddiant mewnol - Yn ôl yr angen rhoddir hyfforddiant cyffredinol a phenodol ar bensiynau ac ar faterion sy'n codi o ran newidiadau rheoleiddio neu weithdrefnol fel rhan o ymrwymiad yr uned i welliant parhaus.
- Hyfforddiant allanol - Mae cyflawni cymwysterau proffesiynol yn bwysig i wella gwybodaeth a hyder y tîm wrth gyfathrebu â budd-ddeiliaid. Felly, anogir pob aelod o staff, newydd a phresennol, i astudio am gymwysterau proffesiynol mewn gweinyddu pensiwn gyda'r Chartered Institute of Payroll Professionals (CIPP). Mae staff hefyd yn mynychu hyfforddiant LGA a Heywood fel y bo'n briodol
- Cyfarfodydd staff - Cynhelir cyfarfodydd staff bob deufis i drafod unrhyw ddatblygiadau mewn deddfwriaeth, newidiadau gweithredol neu weithdrefnol. Anogir y staff i gymryd rhan yn y cyfarfodydd hyn a dylanwadu ar y penderfyniadau sy'n effeithio ar yr uned gyfan.
  Trafodir y Cynllun Gweithredol, yn cynnwys y Dangosyddion Perfformiad Allweddol, yn rheolaidd, er mwyn sicrhau bod aelodau'r tím yn ymwybodol o'u targedau ac y neu bodloni.
- Gwerthuso – Pob blwyddyn, mae pob aelod o staff yn derbyn gwerthusiad i drafod materion gwaith, monitro perfformiad a meysydd i'w datblygu.
- Monitro parhaus – Caiff safonau'r gwasanaeth eu monitro'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran y Cynllun. Yn ddyddiol, anogir cyfathrebu rhwng aelodau staff a'r tîm rheoli ac mae polisi drws agored ar waith.
- Y rhyngrwyd - Mae gan bob aelod o staff fynediad i'r rhyngrwyd i sicrhau bod gwybodaeth am y CPLlL ar gael yn brydlon. Maent hefyd yn gallu cael mynediad I'r Hunan Wasanaeth Aelodau i'w cynorthwyo i gyflawni eu gwaith.

# 3.3 - Cyfathrebu gyda chyrff eraill

Er mwyn hwyluso gweinyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd mae'n rhaid i ni gyfathrebu gyda'r cyrff canlynol:

- Cynrychiolwyr Aelodau - Gall y rhain gynnwys unrhyw unigolyn neu grŵp, megis Cyfreithwyr, Undebau Llafur neu Ddarparwyr pensiwn eraill, yn gofyn am wybodaeth ar ran aelod o'r cynllun. Dim ond gydag awdurdod yr Aelod y rhoddir hyn, yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 a GDPR. Mae holl lenyddiaeth y cynllun ar gael ar gais.
- Partneriaeth Pensiwn Cymru - Sefydlwyd Partneriaeth Pensiwn Cymru (WWP) yn 2017. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn gyfuniad o wyth cronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Awdurdodau Cyfansoddol) ledled Cymru ac mae'n un o wyth cronfa genedlaethol ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.
- Grŵp Swyddogion Pensiynau Amwythig - Mae uwch swyddogion pensiynau Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cyfarfod cynrychiolwyr o Gronfeydd Awdurdodau Lleol eraill yn ardal y West Pennines pob chwarter er mwyn rhannu gwybodaeth, trafod cwestiynau ar ddeddfwriaeth a'r rheoliadau cyfredol yn ogystal ag unrhyw faterion technegol neu weithdrefnol.
- Grŵp Cymru Gyfan - Mae uwch swyddogion pensiynau Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cyfarfod cynrychiolwyr o Gronfeydd Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru pob chwarter er mwyn rhannu gwybodaeth, trafod cwestiynau ar ddeddfwriaeth a'r rheoliadau cyfredol yn ogystal ag unrhyw faterion technegol neu weithdrefnol.
- Grŵp Cyfathrebu Cymru Gyfan - Mae'r grŵp yn cyfarfod yn ôl yr angen, gyda'r bwriad o ffurfioli ac uno dulliau cyfathrebu o fewn Awdurdodau Llywodraeth Leol Cymru. Mae'r grŵp wedi cyd-gynhyrchu:
    - Datganiad Buddion Blynyddol unffurf ar gyfer aelodau actif a gohiriedig
    - Canllaw Byr I'r cynllun ar gyfer pob aelod
    - Canllaw ymddeoliad
    - Ffurflenni mynegi dymuniad grant marwolaeth
    - Tystysgrifau Salwch
    - Ffeithlenni ar bynciau amrywiol y gellir eu dosbarthu i Aelodau.
- Actwari'r Cynllun - O ran lefelau Cyllido, y Prisiad Pob Tair Blynedd, FRS17, TUPE, a'r holl faterion cyllido.
- CAThEM – o ran materion treth aelodau'r cynllun.
- Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY) - Mae swyddogion y gronfa bensiwn yn cysylltu'n rheolaidd â darparwyr CGY'r gronfa ynghylch cronfeydd Aelodau unigol y Cynllun.
- Rheolwyr y Gronfa – O ran buddsoddiadau a pherfformiad y Gronfa.
- Cymdeithas Llywodraeth Leol – Mae'r Gymdeithas Llywodraeth Leol (y tîm Pensiynau) yn rhoi cyngor technegol i awdurdodau gweinyddu ac i gyflogwyr ar y CPLlL.

# Cysylltu â Chronfa Bensiwn Gwynedd

Gallwch gysylltu â ni mewn sawl ffordd:

| | |
|---|---|
| Mewn person neu drwy'r post: | Cronfa Bensiwn Gwynedd<br>Cyngor Gwynedd,<br>Stryd y Jêl,<br>Caernarfon<br>Gwynedd.<br>LL55 1SH |
| Drwy e-bost: | pensiynau@gwynedd.llyw.cymru |
| Dros y ffôn: | 01286 679982 |
| Ar-lein: | www.CronfaBensiwnGwynedd.cymru |